Kat Luckock

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof?

Rwy'n credu yng nghenhadaeth CGGC i alluogi mudiadau gwirfoddol i gael mwy o effaith gymdeithasol ac amgylcheddol, yn enwedig yn sgil yr heriau digyffelyb y bydd cymunedau ar hyd a lled Cymru yn eu hwynebu yn ystod y blynyddoedd nesaf. Rwy'n ymrwymedig i greu cymunedau cynhwysol, teg a chynaliadwy, fel y dangosir gan fy 15 a mwy o flynyddoedd yn arwain mudiadau effaith gymdeithasol ar symudedd cymdeithasol, cyflogadwyedd, cydlyniant cymunedol, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) a datblygu cynaliadwy.

Rwy'n frwd am gynorthwyo mudiadau i gael ffrydiau incwm cynaliadwy ac wedi cynorthwyo cannoedd o fentrau cymdeithasol i wneud hyn dros y bum mlynedd ddiwethaf yn fy musnes fy hun, yn eu helpu gyda'u strategaeth, prosesau mesur effaith a chynlluniau datblygu busnes, fel addysgwr, mentor a hyfforddwr.

Rwyf wedi arwain prosiectau gwirfoddoli ieuenctid, gan ddod â phobl ifanc o wahanol gefndiroedd crefyddol a diwylliannol at ei gilydd. Rwyf wedi sefydlu menter gymdeithasol arobryn sy'n ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr, peirianwyr a mathemategwyr i ddefnyddio eu sgiliau STEM i ddatblygu'r economi werdd a chynnal ein planed, ochr yn ochr â sicrhau dros £1 miliwn o refeniw yn ystod yr wyth mlynedd ddiwethaf, yn bennaf drwy fasnachu. Rwyf hefyd wedi cael profiad bwrdd blaenorol, gan gynnwys yn FTWW a Gyrfa Cymru.

Hoffwn gynrychioli'r aelodau hynny sydd mewn cymunedau, neu'n cefnogi cymunedau, ar hyd a lled Gogledd Cymru.